# Bil Asbestos

15 Mawrth 2013

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Chwefror 2013, pan wnaethoch ofyn,

*Faint o arian a wariodd y Comisiwn ar gyngor cyfreithiol ar y Bil Asbestos arfaethedig, ac i bwy y talwyd yr arian?*

Bydd Comisiwn y Cynulliad yn darparu cyngor cyfreithiol ar ddeddfwriaeth Aelodau mewn dwy ffordd: mae'n darparu cefnogaeth i'r Aelod sy'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth ac (ar wahân) i'r Pwyllgorau a'r Aelodau yn gyffredinol pan fyddant yn craffu ar y ddeddfwriaeth. Yn achos y Bil Asbestos, darparwyd pob cyngor gan ddefnyddio cyfreithwyr mewnol; ni fydd y Comisiwn yn dyrannu costau mewnol i Filiau penodol.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**